WHC (2017) Rhif 046

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 2 Hydref 2017

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL**

**Teitl:** Diwygio Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 – Cyflenwi a Defnyddio Chwistrellwyr Awto Adrenalin mewn Ysgolion.

**Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad** Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn mewn grym tan yr amser y caiff ei ddisodli.

**I'w weithredu gan:**
*Prif Fferyllwyr*

**Angen gweithredu erbyn:** 4 Hydref 2017

**Anfonwr: Y Gangen Fferylliaeth a Rhagnodi, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**
*Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ*

**Dogfennau amgaeedig:** Llythyr Prif Swyddog Fferyllol

WHC/2017/046

Annwyl Brif Fferyllydd

**DIWYGIO RHEOLIADAU MEDDYGINIAETHAU DYNOL 2012 – CYFLEWNI A DEFNYDDIO CHWISTRELLWY AWTO ADRENALIN MEWN YSGOLION**

**Bwriad**

1. I roi gwybod ichi am gyflwyno'r eithriad i ganiatáu i ysgolion gael, dal a defnyddio chwistrellwyr-awto adrenalin wrth drin ymatebion anaffylactig mewn argyfwng.

**Cefndir**

2. Yn sgil cyngor gan y Comisiwn ar Feddyginiaethau Dynol (CHM) mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) wedi argymell newidiadau i ddeddfwriaeth y DU i alluogi ysgolion i ddal chwistrellwyr awto adrenalin i'w defnyddio wrth drin anaffylacsis brys.

3. Yn sgil cytundeb gan y DU a Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill, mae diwygiad i Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (2012) yn caniatáu i ysgolion, o 1 Hydref 2017, gael chwistrellwyr awto adrenalin, heb bresgripsiwn, i'w defnyddio wrth drin ymatebion anaffylactig mewn argyfwng.

4. Nid yw'n ofynnol bod ysgolion yn dal chwistrellwyr awto adrenalin; mae hwn yn bŵer dewisol sy'n galluogi ysgolion i wneud felly, os y dymunant.

5. Gellir defnyddio chwistrellwr awto adrenalin os nad yw'r chwistrellwyr awto adrenalin rhagnodedig y plentyn neu berson ifanc ar gael, er enghraifft oherwydd ei fod wedi camdanio. Dylai chwistrellwyr awto adrenalin a ddelir gan yr ysgol gael eu defnyddio gan blant neu bobl ifanc sy'n bodloni'r amodau canlynol yn unig:

- sydd wedi cael diagnosis o fod mewn perygl o anaffylacsis, ac wedi cael chwistrellwr awto adrenalin ar bresgripsiwn;
- y rhoddwyd caniatâd oddi wrth

**Oddi wrth y Prif Swyddog Fferyllol**


| | |
|---|---|
| Welsh | Llywodraeth |
| Government | Cymru |
| Cathays Park | Parc Cathays |
| Cardiff | Caerdydd |
| CF10 3NQ | CF10 3NQ |


**WHC/2017/046**

**Dosbarthiad electronig at:**

Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd Lleol
Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Prif Fferyllwyr, Byrddau Iechyd Lleol
Prif Weithredwr, Gwasanaeth Ambiwlans Cymr
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Prif Swyddog Deintyddol
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iech Lleol
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwr Nyrsys, Byrddau Iechyd Lleol
Gwasanaeth Carchardai
Arolygiaeth Cymru/Cynghorwyr
Cyfarwyddwr, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol
Prif Weithredwr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru

**Am gylchrediad ymlaen at:**

Pob Prif Fferyllydd Ysbyty
Pob Fferyllydd Cymunedol cofrestredig yng Nghymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:


Andrew Evans
Prif Swyddog Fferyllol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
03000 259 260



© Hawlfraint y Goron 2017
Gellir atgynhyrchu'r cylchlythyr hwn yn rhad ac am ddim gan bawb y mae wedi'i gyfeirio atynt.

riant/gofalwr ar gyfer defnyddio'r chwistrellwr awto adrenalin; ac

- na ellir gweinyddu ei chwistrellydd awto adrenalin rhagnodedig ei hun yn gywir, heb oedi.

6. Dylai ysgolion sy'n dewis cadw chwistrellwyr awto adrenalin roi polisi ar waith sy'n ategu eu defnydd priodol. Datblygwyd canllawiau gyda'r Adran Addysg a Sgiliau i ddarparu cyngor ar gynnwys polisïau o'r fath. Mae'r canllaw hwn ar gael yn: [dysgu.llyw.cymru](dysgu.llyw.cymru)

**Gweithred**

7. Dylai ysgolion brynu chwistrellwyr awto adrenalin oddi wrth fferyllfa gofrestredig. Caniateir i ysgolion brynu chwistrellwyr awto adrenalin a chaniateir i fferyllfeydd eu cyflenwi os bydd cyflenwadau o'r fath yn cynrychioli symiau bach, ac yn digwydd yn achlysurol ac nid ydynt am elw.

8. Wrth ofyn am gyflenwad, rhaid i'r ysgol ddarparu'r fferyllfa â chais a lofnodwyd gan y pennaeth (neu bennaeth dros dro), yn ddelfrydol ar bapur ysgol priodol â phennawd, gan nodi:

- enw'r ysgol y mae'r cynnyrch ar ei chyfer;
- y pwrpas y mae angen y cynnyrch ar ei gyfer, a'r
- cyfanswm sydd ei angen.

9. Efallai y bydd ysgolion yn dymuno trafod y gwahanol chwistrellwyr awto adrenalin sydd ar gael gyda fferyllydd. Efallai y bydd ysgolion angen cyngor ar ddefnyddio chwistrellwyr awto adrenalin. Bydd ysgolion yn ymwybodol y bydd fferyllfeydd yn codi tâl am gost chwistrellwyr awto adrenalin ac efallai y byddant yn ychwanegu tâl trin.

10. Os oes gan ysgol reswm i ddefnyddio chwistrellwr awto adrenalin, fe'u cynghorwyd i sicrhau bod chwistrellwyr awto adrenalin a ddefnyddiwyd yn cael eu rhoi i'r ambiwlans sy'n mynychu.



**Andrew Evans**
**Prif Swyddog Fferyllol Cymru**